


Seminar Dysgu a Rennir ar Reoli Adeiladau

12 Rhagfyr 2013, Caerdydd a 8 Ionawr 2014, Llanrwst

Bywgraffiadau

Paul Kettrick, Cyngor Gorllewin Lothian



Mae Paul wedi bod gyda Chyngor Gorllewin Lothian ers saith mlynedd ac roedd gyda Chyngor Stirling cyn hynny. Ers dwy flynedd mae wedi bod yn gweithio fel Rheolwr Asedau'r Cyngor gyda chyfrifoldeb am reoli Rhaglen Gyfalaf Eiddo Gwasanaethau Cyffredinol y Cyngor. Mae hefyd yn gyfrifol am gydgyssylltu, datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor a'i Gynllun Rheoli Asedau Eiddo ynghyd ag arwain nifer o brosiectau eiddo corfforaethol allweddol.

Fel syrfewr siartredig â mwy nag 20 mlynedd o brofiad o reoli, datblygu a phrisio eiddo mae ganddo gryn brofiad ym maes datblygu economaidd hefyd. Dros y blynyddoedd, mae wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgoreu ar ran Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (yr Alban) a chyrrff mentrau busnes a chymdeithasau lleol. Mae hefyd yn aelod o Gymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau.

Karen Phillips, Coleg y Cymoedd



Karen yw Dirprwy Bennaeth Cynllunio Corfforaethol a Materion Allanol yng Ngholeg y Cymoedd. Mae Karen yn weithiwr Adnoddau Dynol proffesiynol a chyn iddi ddod yn Ddirprwy Bennaeth ym mis Ebrill 2008 hi oedd Prif Weithredwr Capital Law LLP, sef cwmni cyfraith fasnachol a leolir yng Nghaerdydd a Llundain.

Wedi'i magu yng Nghwm Rhondda, dechreuodd Karen ei gyrfa mewn llywodraeth leol (wyth mlynedd) ac yna addysg uwch (pum mlynedd) cyn ymuno â'r cwmni cyfreithiol fel rheolwr cyffredinol yn 1996 a chael ei gwahodd i ymuno â'r Bwrdd yn 2003. A hithau wedi cynnal cysylltiadau ag addysg drwy ddarlithoedd gwadd, gadawodd Karen y sector preifat i ddychwelyd i addysg yn 2008.

Arweiniodd Karen y timau corfforaethol o fewn Coleg Morgannwg yn llwyddiannus a rheolodd y prosiect cyfalaf £40m ar gyfer campws newydd Nantgarw a agorodd ym mis Medi 2012. Hefyd, roedd Karen yn Rheolwr Prosiect ar y cyd ar gyfer y broses o uno â'r Coleg, Ystrad Mynach gan lywio'r gwaith o greu Coleg y Cymoedd ym mis Awst 2013.

Mae Karen yn ddilynwr brwd o Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a gweithiodd gydag ef fel mentor o 2002 a arweiniodd at ennill Gwobr Unigol Celfyddydau a Busnes am gyfraniad neilltuol i sefydliad celfyddydol yn 2003; ac yna'n ddiweddarach roedd yn Aelod Bwrdd ac yn Gadeirydd Grŵp Cyngori'r Bwrdd Adnoddau Dynol rhwng 2004 a 2010.

Janet Thickpenny, y Gronfa Loteri Fawr



Fe ymunodd Janet Thickpenny â'r Gronfa Loteri Fawr yn 2005, fel Swyddog Cyllid yn wreiddiol cyn dod yn Ymgynghorydd Polisi a Dysgu yn 2010. Mae Janet wedi bod yn ymwneud â datblygu a chyflwyno amrywiaeth o raglenni gan gynnwys y Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn fwy diweddar, wrth reoli gwerthusiad y rhaglen. Mae cefndir blaenorol Janet mewn rhoi grantiau cymunedol a Chyllid Ewropeaidd.

Tina Cottrell, y Gronfa Loteri Fawr



Ymunodd Tina Cottrell â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn 2002 a wnaeth, yn ddiweddarach, uno â'r Gronfa Gymunedol gan greu'r Gronfa Loteri Fawr. Yn ystod ei chyfnod yn y Gronfa, bu Tina'n ymwneud â datblygu a chyflwyno amrywiaeth o raglenni sy'n cynnwys y Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, a gafodd ei lansio yn 2009. Mae wedi gweithio fel Rheolwr Cyllid ers 11 mlynedd ond cyn hyn roedd ei chefnidir ym maes Cynllunio Trefi.

Antony Wallis, Cyfoeth Naturiol Cymru



Antony Wallis yw Pennaeth Asedau Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Ymhlith ei gyfrifoldebau mae Rheoli Cyfleusterau a Llety, Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001), Rheoli Fflyd ac mae hefyd yn Swyddog Diogelwch Adrannol ar gyfer CNC. Cyn sefydlu CNC, roedd Antony yn Asiant Tir Gwlad ar gyfer un o gyrff sylfaen CNC sef Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Fel Syrfëwr Siartredig a Choedwigwr Siartredig, mae Antony wedi bod ynghlwm wrth waith rheoli eiddo a/neu goedwigaeth yn y maes practis preifat neu'r sector cyhoeddus ers 36 mlynedd.

Mae Antony yn briod ac mae ganddo bedwar o blant ac wyth o wyresau.

Peter Parkes, Cyngor Sir Caerwrangon



Mae gan Peter dros 30 mlynedd o brofiad o weithio ym maes eiddo ac adeiladu, ac mae ganddo arbenigedd penodol mewn gwaith rheoli prosiect, caffael, rheoli asedau a mentrau cyllid preifat. Mae wedi gweithio yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys cyfnod dramor. Yn ystod ei gyfnod gyda Chyngor Sir Caerwrangon mae wedi gweithredu fel Cyfarwyddwr Prosiect ar ddau gynllun menter cyllid preifat mawr. Y diweddaraf o'r rhain yw llyfrgell gyhoeddus a phrifysgol ar y cyd arloesol Sir Caerwrangon -

The Hive, a gafodd ei hagor gan y Frenhines yn ystod haf 2012.

Mae Peter wedi bod yn Bennaeth Gwasanaethau Eiddo yn y Cyngor Sir ers mis Chwefror 2010 lle mae wedi arwain llawer o fentrau traws-bartner gan gynnwys gwaith braenaru diweddar Cyfalaf ac Asedau sy'n ceisio gwneud arbedion o gydweithio, cydweithredu a rhannu asedau sector cyhoeddus. Mae'r bartneriaeth hon, sy'n cynnwys 19 o gyrff sector cyhoeddus ar draws Sir Caerwrangon, yn unigryw ledled y wlad ac mae'n darparu tystiolaeth wirioneddol o fuddiannau gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae Peter bellach yn arwain y cynllun peilot GPU diweddaraf gan weithio gyda'r CLIL i ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o ffurfioli a chynnal y gwaith cydweithredol hwn yn y dyfodol.

Alan Stokes, Cyngor Sir Caerwrangon



Mae rôl bresennol Alan yn rheoli Uned Rheolaeth Asedau Strategol i Gyngor Sir Gaerwrangon yn cynnwys arolygu eiddo, asesu rheolaeth o ddata, rheoli ystadau, cynllunio buddsoddi cyfalaf a rheoli prosiectau. Mae o hefyd yn Llywydd sefydliad Ffederasiwn Cymdeithasau Eiddo (Federation of Property Societies).

Yn ogystal â'i rôl o fewn Cyngor Sir Gaerwrangon mae'n darparu arweiniad technegol i Bartneriaeth Asedau Cyfalaf (CAP)

Caerwrangon, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o sefydliadau sector cyhoeddus yn y sir. Mae gan CAP Caerwrangon enw da drwy'r wlad am ddarparu prosiectau rhesymoli eiddo arloesol sydd wedi cynyddu cyfalaf, arbed refeniw a hwyluso cydweithio ar draws sefydliadau. Mae'r profiad hwn wedi dangos bod gwell cydweithio ar draws sefydliadau, yn enwedig o ran y defnydd o asedau, yn ganolog i ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus cynaliadwy mewn hinsawdd economaidd anodd.

Fe gymhwysodd Alan fel Syrfeŵr Meintiau Siartredig ym 1980 ac fe'i cyflogwyd fel Economegydd Adeiladau cyn mynd i arolygu eiddo ym 1987. Mae wedi bod yn rhesymoli'r defnydd y sector cyhoeddus o eiddo, mewn un ffordd neu'i gilydd, byth ers hynny.